# 7 Y GASEG DDU

## (*THE BLACK MARE*)




(a) 2, 4 & 5.

2. Fe fwydais i 'r hen gaseg,
   Â dŵr a cheirch a bran,
   Nes aeth yr hen greadur
   Rhy dew i symud cam.
   Tyri yff . . .

3. Fe drigodd yr hen gaseg,
   A'i chalon oedd fel dwy,
   A 'ngadael i pryd hynny
   Heb allu prynu mwy.
   Tyri yff . . .

4. Fe ddaeth y brain a'r piod
   I ofyn am bris y cig;
   Fe ddwedodd un pioden,
   "Mae'n ddigon i ni i gyd!"
   Tyri yff . . .

5. Chwi bobol nawr sy'n gwrando,
   Yn fawrion ac yn fân,
   Er mwyn cael caseg arall,
   Rhowch geiniog am y gân.
   Tyri yff . . .

Tâp AWC 428. Recordiwyd 16.11.61 gan Bertie Stephens (bridiwr cŵn hela, etc., g. 1900), Llwyncelyn, Llangeitho, sir Aberteifi. Wrth ganu, cyfeiliai'r canwr iddo ei hun drwy guro rhithmau â'i ddwylo ar y bwrdd—gan ddynwared sŵn 'y felin ban' (y felin bannu gwlân), meddai.
Yn Abergorlech, sir Gaerfyrddin, y magwyd BS. Yr oedd ganddo rai degau o gerddi llafar gwlad yn fyw ar ei gof a chanodd lawer arnynt mewn cyngherddau. Clywodd y gân hon ar adeg y Rhyfel Byd Cyntaf gan 'Dai Arian Drwg', dyn a werthai watsys ar hyd ffeiriau.